Rheoliadau Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 Asesu Amgylcheddol Cynlluniau a Rhaglenni (Cymru)
2004
Rheoliadau Cynllunio Tref a Gwlad (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005
Rheoliadau 2005 (Rheoliad 17) (fel y'i dywigwyd 2015)

Hysbysiad Cynigion Adneuo Cynllun Datblygu Lleol Newydd

Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd 2021 – 2036

Mae Cyngor Caerdydd wedi paratoi dogfennau'r Cynllun Adneuo gyfer y cynllun uchod. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol CDLlN pan gaiff ei fabwysiadu yn disodli'r cynllun datblygu presennol a bydd yn sail i benderfyniadau ar gynllunio defnydd tir i Ddinas a Sir Caerdydd.

Mae dogfennau'r cynigion Adneuo yn cynnwys y CDLl Adneuo, yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (sy'n ymgorffori'r Asesiad Amgylcheddol Strategol), yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol a dogfennau ategol eraill.

Gwahoddir sylwadau ar ddogfennau cynigion y Cynllun Adneuo sy'n nodi gweledigaeth, strategaeth, polisïau manwl a dyraniadau safleoedd yr Awdurdod, ac sy'n cynnwys gwybodaeth gefndirol allweddol.

Bydd ymgynghoriad ar y CDLl Adneuo yn digwydd o **18 Chwefror tan 15 Ebrill 2025**. Dyma le mae'r dogfennau ymgynghori adneuo ar gael:

- Gwefan y Cyngor: Ymgynghoriad - Cynllun Datblygu Lleol - Cyngor Caerdydd
- Cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori i'w cynnal ledled y ddinas. Gellir dod o hyd i fanylion am leoliadau, dyddiadau ac amseroedd ar wefan y Cyngor yn Ymgynghoriad - Cynllun Datblygu Lleol - Cyngor Caerdydd
- drwy gais yn Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd CF10 4UW. Anfonwch e-bost i Gyngor Caerdydd, CDLl@caerdydd.gov.uk i drefnu apwyntiad

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau ar ddogfennau ymgynghori Adneuo Caerdydd yw **hanner nos ar 15 Ebrill 2025**.

Gellir cyflwyno sylwadau drwy:

- Ffurflen Sylwadau Ar-lein Ymgynghoriad - Cynllun Datblygu Lleol - Cyngor Caerdydd
- y ffurflen gynrychiolaeth safonol sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn Ymgynghoriad - Cynllun Datblygu Lleol - Cyngor Caerdyddac yn anfon e-bost at CDLl@caerdydd.gov.uk neu ei bostio i Tîm CDLl, Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW.

Dylai sylwadau nodi'r rhan benodol o'r Cynllun y maent yn ymwneud â hi gan nodi paragraff, rhif polisi, neu fap o'r cynnig. Os ydych chi'n credu y bu hepgoriad, dylid nodi'r polisi newydd a gynigir, testun amlinellol, neu leoliad safle newydd neu ddiwygiedig. Dylai ymatebwyr nodi sut mae eu sylwadau yn gydnaws â'r strategaeth gyffredinol a'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Bydd hyn yn hanfodol pan fydd y sylwadau yn ceisio cynnwys safle newydd neu ddiwygiedig neu ymgorffori safle a wrthodwyd gan yr Awdurdod. Sylwch y bydd yr holl sylwadau a wneir am y Cynllun ar gael i'r cyhoedd eu gweld.

Bydd y CDLl adneuo a'r holl sylwadau a wneir yn briodol mewn cysylltiad â hynny, yn cael ei ystyried gan Arolygwr annibynnol a fydd yn asesu p'un a yw'n 'gadarn'. Mae nifer o brofion cadernid a dylai gwrthwynebiadau i'r CDLl Adneuo gyfeirio at y profion hyn lle bynnag y bo modd.

Gellir cyflwyno sylwadau gyda chais i gael eich hysbysu mewn cyfeiriad penodol o gam nesaf y CDLlN a/neu fod y CDLlN wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer Archwiliad Annibynnol a/neu fabwysiadu'r cynllun.

Dim ond yn unol â'r hysbysiad hwn y mae'n ofynnol i'r Awdurdod ystyried sylwadau (wedi'u gwneud yn briodol). Dim ond os gwneir sylwadau 'yn briodol' mae hawl i sylwadau sydd o blaid newid y CDLl Adneuo fynd gerbron yr Arolygydd yn yr Archwiliad a chael eu clywed ganddo.

Mae rhagor o wybodaeth am y broses CDLlN a dogfennau cefndir perthnasol ar gael ar wefan y Cyngor yn Ymgynghoriad - Cynllun Datblygu Lleol - Cyngor Caerdydd
Simon Gilbert
Pennaeth Cynllunio